**Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2024 drwy Zoom**

**Yn Bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Julia Hughes (Cadeirydd) | JH | Aelod Annibynnol |
| Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd) | SE | Aelod Annibynnol |
| Gareth Pritchard | GP | Aelod Annibynnol |
| Gill Murgatroyd | GM | Aelod Annibynnol |
| | | |
| Gareth Owens | GO | Swyddog Monitro/Clerc |
| Matthew Powell | MP | Dirprwy Swyddog Monitro/Clerc |
| Lisa Allington | LJA | Cynorthwyydd Gweithredol / Cyswllt Aelodau |

**Ymddiheuriadau**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd John Brynmor Hughes | JBM | Cyngor Gwynedd |

**Yn Absennol**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Marion Bateman | MB | Cyngor Sir y Fflint |

---

Agorodd y cyfarfod am 14:30.

1 **YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorydd John Brynmor Hughes. Nodwyd bod y Cynghorydd Marion Bateman yn absennol heb ymddiheuriad.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Gofynnwyd i drafodaeth gael ei chynnal o dan faterion brys mewn perthynas â mater yn ymwneud ag aelod o staff yn Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

3.2 Nodwyd ymhellach y byddai'r Prif Swyddog Tân (PST) yn annerch y Pwyllgor o dan UFA.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

4.1 Nodwyd yn Eitem 7 bod SE wedi tynnu sylw’r rhai a oedd yn bresennol at y nodweddion gwarchodedig ac nad oedd hyn wedi'i nodi yn y cofnodion.

4.2 Nodwyd ymhellach fod diffyg cysondeb yn nheitl y Cod Ymddygiad. Cytunwyd y dylid cyfeirio ato yn y dyfodol fel Cod Ymddygiad yr Aelodau.

4.3 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2024 fel cofnod cywir, yn amodol ar y newidiadau uchod.

## 5 MATERION YN CODI

5.1 Cadarnhaodd aelodau'r Pwyllgor eu bod wedi derbyn cofnodion y Fforwm Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau.

5.2 Cadarnhaodd y Clerc fod dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol wedi eu darparu i Aelodau Wrecsam.

5.3 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch yn cael ei gyhoeddi ar y wefan cyn gynted â phosibl.

5.4 Nodwyd nad oedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod hwn oherwydd ei fod yn gyfarfod arbennig; fodd bynnag, byddai hyfforddiant ar anfri yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2023-24

6.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau. Nod hyn oedd darparu'r manylion angenrheidiol i'r Aelodau er mwyn cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

6.2 Nodwyd y byddai angen mewnosod dyddiadau diwedd y tymor cyn cymeradwyo’r adroddiad.

6.3 Holodd Aelod am linell ar waelod tudalen 10 o'r pecyn a oedd yn cyfeirio at y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd y Clerc fod yr adroddiad yn ymwneud â blwyddyn y cyngor ac felly y dylid diwygio hyn, ynghyd â'r pwynt bwled ar waelod tudalen 11 y pecyn.

6.4 Mewn perthynas â'r flaenraglen waith, nodwyd bod angen newid geiriad brawddeg olaf un yr ail baragraff er mwyn ei gwneud yn berthnasol i eleni.

6.5 O dan yr eitem materion a drafodwyd, teimlai'r Aelodau y dylid cyfeirio at ymholiadau dilynol a gynhaliwyd ar gyfer Aelodau yr oedd eu presenoldeb wedi gostwng o dan 50% yn flaenorol, a bod amgylchiadau lliniarol wedi cael eu hystyried.

6.5 Gofynnodd yr Aelodau i'r pwynt olaf ar dudalen 11 o'r pecyn gael ei newid i adlewyrchu safbwynt mwy cadarnhaol, h.y. gellid gweld enghreifftiau cadarnhaol o gydymffurfio'n llawn â'r cod ymddygiad.

6.6 Gofynnwyd a oedd unrhyw gyfarfodydd pellach wedi'u cynllunio gyda Chadeirydd yr Awdurdod, a chytunwyd y byddai cyfarfod o Gadeiryddion yr holl Bwyllgorau yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

6.7 Gofynnodd un Aelod i bresenoldeb Aelodau Annibynnol yn y Seminar Diwylliant gael ei gynnwys yn yr adroddiad er mwyn dangos ymrwymiad i'w hyfforddiant parhaus.

6.8 O ran y 'materion a drafodwyd' ar dudalen 11 o'r pecyn, nodwyd, wrth gysylltu'n ysgrifenedig ag Aelodau oherwydd presenoldeb gwael, fod copi o'r llythyr yn cael ei anfon at Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd eu hawdurdodau cyfansoddol hefyd. Cytunwyd y dylid cynnwys hyn yn yr adroddiad.

6.9 Nodwyd ar dudalen 12, mewn perthynas â'r Flaenraglen Waith, y dylai'r frawddeg gyntaf yn y Saesneg gyfeirio at y 'Forward Work Programme', yn hytrach na'r 'Forward Works Programme'. Nodwyd hefyd bod dyddiad yr etholiadau yn anghywir a dylai fod yn 2027.

6.10 Mewn perthynas ag Atodiad 06ii, lle'r oedd paragraff 18 yn nodi ei bod yn arfer da i Bwyllgorau Safonau rannu eu Hadroddiadau Blynyddol gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gofynnodd yr Aelodau i'r adroddiad eleni gael ei rannu gyda hi.

6.11 **PENDERFYNWYD:**

i) cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod, yn amodol ar y newidiadau uchod.

## 7 ADOLYGIAD TREIGL O GOD YMDDYGIAD YR AELODAU

7.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar God Ymddygiad yr Aelodau (y Cod). Roedd hwn yn cael ei ddarparu i'r Aelodau er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol, yn enwedig yng ngoleuni'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad Penn.

7.2 Nodwyd bod dau bwynt wedi eu codi yn y cyfarfod diwethaf. Nid oes yr un cyngor arall yng Nghymru wedi gwneud unrhyw beth o ran Adolygiad Penn.

7.3 Cynghorwyd yr aelodau bod diogelu, i ryw raddau, yn dibynnu ar weithrediad y paneli a'r byrddau diogelu a'u hymgysylltiad a'u hymwneud â'r Swyddog Monitro.

7.4 Gofynnwyd a fyddai gwiriad awtomatig yn cael ei gynnal o ran gwahanol rolau Cynghorydd a oedd yn destun ymchwiliad, ac yna y byddai'r cyrff hynny'n cael eu hysbysu. Cadarnhaodd y Clerc y byddai hyn yn cael ei ystyried yng ngoleuni'r honiadau. Fodd bynnag, roedd llai o gyswllt â'r cyhoedd o ran Aelodau'r Awdurdod ac felly byddai'r risg yn llawer llai, mewn perthynas â'u gwaith o fewn y ward.

7.5 Nodwyd bod yr angen am orchymyn atal dros dro wedi'i nodi fel rhan o adolygiad Penn, ac y byddai angen deddfwriaeth, na fyddai'n digwydd tan o leiaf 2026.

7.6 Gofynnwyd a ellid newid geiriad paragraff 4a i gynnwys beichiogrwydd a mamolaeth fel un o'r deg nodwedd warchodedig.

77 Gofynnwyd ymhellach i baragraff 4a gael ei ddiwygio i ddweud ailbennu rhywedd yn hytrach nag ailalinio, er mwyn cyd-fynd â'r Ddeddf.

7.8 Mewn perthynas â rhoi gwybod yn wirfoddol am droseddau, nodwyd mai dim ond i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yr oedd gofyn i Aelodau roi gwybod. Cytunwyd y dylid aileirio hyn i gynnwys y Swyddog Monitro.

7.9 Teimlai'r Aelodau fod y newidiadau arfaethedig yn ymddangos yn welliannau clir ac o'r herwydd, cytunwyd eu bod yn cael eu derbyn.

7.10 **PENDERFYNWYD:**

i) Adolygu geiriad Cod Ymddygiad yr Aelodau i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol; ac
ii) Argymell y dylai'r Awdurdod fabwysiadu'n wirfoddol newidiadau i'r Cod sydd wedi'u hargymell gan Adolygiad Penn, yn amodol ar y newidiadau uchod.

## 8 **PRESENOLDEB AELODAU**

8.1 Cyflwynodd y Clerc y papur ar bresenoldeb yr Aelodau er mwyn i'r Pwyllgor ystyried ac ymdrin ag unrhyw bresenoldeb gwael yng nghyfarfodydd yr Awdurdod.

8.2 Nodwyd bod un Aelod ar hyn o bryd ar ganran bresenoldeb o dan 50%. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd bod cyfarfodydd yn cyd-daro â'i hawdurdod cyfansoddol ac roedd hi'n bwriadu mynd i'r afael â hyn.

8.3 Gofynnwyd am gael cynnwys colofn yn nodi a oedd presenoldeb wedi gwella neu ddirywio ac unrhyw amgylchiadau lliniarol mewn adroddiadau yn y dyfodol.

8.4 **PENDERFYNWYD:**

- i) nodi cyfraddau presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod hwn ers mis Hydref 2023; a
- ii) gofyn i'r Clerc gysylltu â'r Aelod sydd â'r presenoldeb o dan 50% a thrafod ffordd ymlaen.

**9 ADOLYGIADAU TREIGL O'R PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU/CYFLOGEION**

9.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y papur mewn perthynas â'r adolygiad treigl o'r protocol ar gysylltiadau Aelodau/Cyflogeion (y Protocol). Roedd y papur yn cael ei adolygu er mwyn ystyried newidiadau i sicrhau ei fod yn berthnasol yn benodol i gategorïau eraill o weithwyr, yn ogystal â chyflogeion.

9.2 Gofynnwyd i ddiffiniad o 'staff' gael ei gynnwys yn adran 1.2 o'r protocol.

9.3 Nodwyd na chafwyd unrhyw adborth gan uwch reolwyr o ran anawsterau gweithredu'r protocol.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

- i) cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Protocol ac argymell bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Protocol yn ffurfiol, yn amodol ar y diwygiadau pellach y gofynnwyd amdanynt yn y cyfarfod hwn.

**10 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – 'EIN CANFYDDIADAU'**

10.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc bapur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 'Ein Canfyddiadau'. Nod y papur oedd adrodd ar ganfyddiadau diweddar gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) i weld a oedd unrhyw negeseuon y mae angen eu rhannu ag Aelodau'r Awdurdod.

10.2 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y dylai'r cyfnod adrodd y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 8 o'r adroddiad ddarllen 30 Medi 2023 i 20 Mawrth 2024.

10.3 **PENDERFYNWYD:**

- i) Nodi nad oedd tueddiadau na negeseuon yn adroddiad Ein Canfyddiadau a allai fod o fudd i gynghorwyr yn yr Awdurdod;

11 **MATERION BRYS**

11.1 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod mater wedi codi yn ymwneud ag aelod o staff yn OGCC. Darganfuwyd bod Arweinydd Tîm yn y Tîm Ymchwiliadau wedi bod yn defnyddio gwahanol ffugenwau i bostio sylwadau rhagfarnllyd ar flogiau ar y rhyngrwyd. Roedd hyn wedi codi cwestiynau am y penderfyniadau a wnaed ganddi.

11.2 Roedd cyfarfod wedi'i drefnu gyda'r holl swyddogion monitro a'r OGCC ar 17 Ebrill, pan fyddai'r penderfyniad i ymchwilio yn cael ei drafod.

11.3 Croesawyd y PST i'r cyfarfod a rhoddodd wybod i'r Aelodau am y sefyllfa o ran diwylliant o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Cadarnhawyd bod y Cynghorydd Sharon Doleman wedi'i phenodi yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd yr Aelodau.

11.4 Dywedodd y PST y cadarnhawyd hefyd mai'r Gweinidog Tân newydd yng Nghymru fyddai Julie James.

11.5 Roedd y Gwasanaeth wedi cynnig, ochr yn ochr â GTACGC, fod adolygiad diwylliant annibynnol yn cael ei gynnal o'r ddau wasanaeth ac roedd hyn yn cael ei ddatblygu. Y disgwyl oedd y byddai'r contract yn cael ei osod o fewn y mis nesaf gyda'r adolygiad yn cael ei gynnal dros gyfnod o ddau fis. Yna, byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn eu cyfarfod ym mis Hydref. Byddai'r adolygiad yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i nodi unrhyw dueddiadau gan ddangos a oedd meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach o ran diwylliant.

11.6 Gofynnodd un Aelod pa effaith yr oedd y dyfalu niweidiol yn y wasg wedi'i chael ar staff, ac ymatebwyd bod rhai staff yn wynebu ymddygiad gwael gan aelodau'r cyhoedd. Roedd mecanweithiau cymorth wedi'u rhoi ar waith ar gyfer staff, pe baent yn teimlo bod angen iddynt fanteisio ar hynny.

11.7 Cynigiodd yr Aelodau eu cefnogaeth a gofyn am gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau yn y dyfodol.

Cyfarfod nesaf 2 Hydref 2024 am 10:00.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:32